# SL(6)779 – [Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026]

## Cefndir a Diben

Mae adran 1(1) o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc.  (Pŵer i Addasu) 2022 (**"Deddf 2022"**) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu deddfiadau penodol sy'n ymwneud â threthi datganoledig at y dibenion penodol a nodir yn adran 1(1)(a) i (d) o Ddeddf 2022, yn ddarostyngedig i rai amodau a chyfyngiadau.

Daw'r pŵer o dan adran 1 o Ddeddf 2022 i ben ar 8 Medi 2027. Fodd bynnag, mae adran 7(2) o Ddeddf 2022 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu y caiff y pŵer barhau mewn grym am gyfnod pellach, hyd at 30 Ebrill 2031. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y pŵer hwn i barhau mewn grym tan y dyddiad hwnnw.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn, ym mharagraff 4.1, yn nodi mai:

> *"Nod y Rheoliadau ... yw sicrhau bod pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 o Ddeddf 2022 ar gael i'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru hyd at 30 Ebrill 2031.  Bydd hyn yn rhoi amser, pan fydd y pŵer adran 1 yn Neddf 2022 yn parhau i fod ar gael i Lywodraethau Cymru a Seneddau yn y dyfodol, i sefydlu pa ddulliau gweithredu y maent am eu rhoi arwaith ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.  Mae*

*adolygiad Gweinidogion Cymru[1] o ddiben ac effaith Deddf 2022 a'r mecanwaith deddfwriaethol amgen posibl yn gam cyntaf. Bydd estyn dyddiad dod i ben y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 o Ddeddf 2022 yn golygu felly y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu gwneud newidiadau mewn modd cyflym a hyblyg os bydd angen."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Mawrth 2026**

[1] Adolygiad Gweinidogion Cymru o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (13 Chwefror 2026)